

# Gair bach Bethlehem 23



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 23 2020 (Rhifyn cyn Nadolig)



(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



## RHAGFLAS O'R DDRAMA NADOLIG AR Y WE ELENI



Dyma rai o'r cast welwch chi'r wythnos nesaf yn y Ddrama Nadolig rithiol gyntaf erioed o Fethlehem (*uchod*): Gruff, Nanw a Tomos) (*chwith*): Sara ac Awen - yn eu mygydau; (*dde*): Elis a Steffan



Neges Nadolig

## Geiriau Bach Bethlehem.



“Ac wedi geni’r Iesu ym Methlehem Jiwdea ..” fe ddaeth ‘na fugeiliaid at y crud, ac mae’n siŵr taw “Shalom!” oedd eu cyfarchiad i Joseff a Mair. “Shalom” - “Tangnefedd i chi”. A dwi’n siŵr bo chi’n cofio mai ystyr y gair Tangnefedd yw - “rwy’n dymuno’r gorau o’r gorau i chi.”

Yna, fe ddaeth y Doethion gyda’u rhoddion, aur a thus a myrr, a galla i ond dychmygu taw “Basima!” oedd yr ebychiad ddaeth o enau Joseff- sef ... “Diolch” yn yr Aramaeg, iaith yr Iesu. Ac ar drothwy’r Wyl, gaf i ddymuno y gorau o bob dim *i chi*, a hynny gyda diolch. O’r ifanca i’r ...beth wedwn ni ...yr aeddfeta’ !! Am eich cymorth a’ch cyfraniad, eich cwmni a’ch cefnogaeth, ac yn bennaf oll am eich gofal o’ch gilydd ar hyd y flwyddyn ofidus “Covid-us” hon.

Felly, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, heb anghofio’r geiriau bach ynganwyd ym Methlehem, “Shalom” a “Basima.”

*Delwyn.*



Dyma'r oedfaon dros yr wythnosau nesaf

## Suliau Bethlehem – Y Nadolig, Calan a Ionawr

(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)

Dyma'r oedfaon dros yr wythnosau nesaf (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):-

**13 Rhagfyr** – Oedfa **9 Llith a Charol** (am 5:00 p.m.)

**20 Rhagfyr** – Cyflwyniad **Nadolig yr Ysgol Sul** (Oedfa Rithiol)

**25 Rhagfyr** – Oedfa **Bore 'r Nadolig** (Oedfa Rithiol)

**27 Rhagfyr** – NODER: Fydd dim oedfa ar y Sul hwn

**3 Ionawr 2021** – Oedfa Gymun dan ofal **Delwyn Sion**

**10 Ionawr** – Oedfa **Blygain** (Oedfa rithiol ar-lein)

**17 Ionawr** - Parchg Gethin Rhys,

**24 Ionawr** - Parchg Dafydd Andrew Jones,

**31 Ionawr** - Parchg Robin Wyn Samuel



## ANFONWN EIN COFION AT Y CANLYNOL:

### Rhai sydd heb allu mynychu'n ddiweddar

Eurfryn Thomas

Betty Williams

Cath ac Emyr Edwards

Marian Jones

### Rhai sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar:

Ann Williams

Elen Lewis

### Rhai sydd wedi colli anwyliaid dros y misoedd diweddar:

Delyth Evans (Yr Eglwys Newydd)

Enid Davies

Eirlys Lamb

Kathryn Llywelyn

Heulwen Jones

Bethan Thame

## CROESO I'R BABIS

Croeso i **Casi Olwen** a **Dafydd Huw**, efeilliaid i Anwen ac Edward Pritchard-Rowlands, Radur, a wyrion i Gwyneth Lewis, Pentyrch.

Croeso i **Morus Ifan Glyn**, mab i Rosanna ac Ifan Glyn, a brawd i Besi Ann, yng Ngwaelod-y-Garth. Wŷr bach newydd i Joy ac Eifion Glyn, Pentyrch.

# Dyddiadur yr Ysgol Sul

## Dydd Sul 15 Tachwedd

Branwen ac Enfys gyflwynodd y wers a'r cwis y bore ma. Cawsom hanes ymosodiad y milwyr ar ddinas Jeriwsalem yng nghyfnod Eseia, ond wnaethon nhw ddim llwyddo i'w gorchfygu hi. Atebodd y plant y cwestiynau yn wych ac fe gafodd pob un ohonynt farciau llawn! Diolch i Olwen, Eli, Sara, Awen, Alys, Anni, Pegi, Clara, Trystan, Luned ac, wrth gwrs, Enfys a Branwen.

## Dydd Gwener 20 Tachwedd

Sgript y ddrama Nadolig rhithiol wedi ei hanfon at y plant.



## Dydd Sul 22 Tachwedd

Bore braf – o'r diwedd. Daeth nifer o ymddiheuriadau bore 'ma gan bod sawl un wedi cymryd y cyfle i fynd i gwrdd â'u teuluoedd - yn yr awyr agored wrth gwrs!



Stori y Samariad Trugarog oedd gan Holly heddi ac fe ddechreuodd trwy sôn am Pudsey a

Plant Mewn Angen. Gofynnodd i'r plant feddwl am sut mae nhw'n gallu helpu eu ffrindie pan maen nhw mewn angen. Adroddodd stori'r Samariad Trugarog a dangosodd fideo o'r stori oedd wedi ei wneud â Lego. Cwis wedyn a chafwyd marciau llawn gan bawb. Rhoddais her i'r plant greu ffilmau eu




hunain gan ddefnyddio Lego a rwy'n edrych mla'n i rhannu nhw gyda chi ar [bethlehem.cymru](http://bethlehem.cymru) cyn bo hir.

**Dydd Sul 29 Tachwedd** Tro Lowri oedd hi i arwain yn yr Ysgol Sul heddi ac fe ddewisodd siarad am yr Adfent. I Gristnogion, mae'n gyfnod paratoi ar gyfer y Nadolig. Mae'n dechrau ar y pedwerydd dydd Sul cyn y Nadolig ac y mae'n draddodiad yn yr Eglwys i gynnau un cannyll ar bob un o'r Suliau hyn.



Dangosodd Lowri luniau o galendrau Adfent gan gynnwys rhai y gellir eu gwneud gartre a rhai sy'n gallu cael eu llenwi a gwahanol bethau a'u defnyddio o flwyddyn i flwyddyn. Soniodd am galendrau elusennol a hefyd am galendrau Adfent drud iawn.

## Y Calendr Adfent



Calendr te £125



Calendr Colur £150



Calendrau diemwntau  
£104,000 a £1.7miliwn



Roedd ymateb Eli, Luned, Elis, Nanw, Clara, Pegi, Aaron, Gwenni a Trystan yn wych fel arfer ac fe gafodd Lowri gymorth arbennig gan Mabon i ddangos y cyflwyniad ar y Zoom. Gorffennodd gyda chwis.

Gan ei bod yn gyfnod prysur yn paratoi ar gyfer y Nadolig, penderfynwyd beidio a chynnal Ysgol Sul tan fis Ionawr. Hoffwn ddiolch i'r plant a'u teuluoedd am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd ers cychwyn y cyfnod clo mawr. Mae wedi bod yn bleser pur cael eu cwmni bob bore Sul. Cofiwch fod croeso i chi droi i mewn atom unrhyw bryd.



# Nwyddau i'r Calendr Adfent Amgen

Rhodri-Gwynn Jones

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio'r cyfeiriad yn y rhifyn diwethaf o'r "Gair bach" at y Calendar Adfent Amgen. Tybed faint ohonoch sydd wedi mentro i ddilyn y patrwm o gynhoi'n ddyddiol eitemau y gellid wedyn eu trosglwyddo i'n dewis elusen, Canolfan y Drindod, Caerdydd? O gofio, fel yr awgrymwyd yn yr erthygl, mai trosglwyddo'r deunydd cyn y Nadolig fyddai'r nod, yna mae'n ddyledus arnom i sicrhau bod unrhyw gyfraniad yn cael ei gasglu mewn da bryd. **Y bwriad felly ydi derbyn unrhyw gyfraniadau, yn y capel, rhwng 10 ac 11:30 o'r gloch y bore, ar ddydd Mawrth y 15fed o Ragfyr 2020.**

Byddai modd hefyd casglu'r deunydd o'ch cartref petai hynny yn fwy cyfleus i chi. Byddai cael gwybod am eich dyhead yn ein galluogi i drefnu taith gasglu ar yr un diwrnod. Dyma'r rhestr unwaith eto, ac os y dymunwch, byddai'r rhyddid i gyfrannu'r cwbl neu beth o'r hyn a restrir – gwn y bydd y cyfan yn cael ei roi a'i dderbyn gyda diolch, yng ngwir ysbryd y Nadolig:-

1. Bocs o fwyd brecwast
2. Potel o ddeunydd golchi llestri
3. Tun o Gawl
4. Bar o Sebon
5. Paced o Basta
6. Cig mewn tun
7. Paced o Glytiau Babi
8. Brwsh dannedd
9. Paced o sachau te
10. Jar o saws pasta
11. Tun o Domatos
12. Tun o Lysiau



13. Paced o ffacbys (lentils)
14. Powdwr Golchi Dillad
15. Tun o ffrwythau
16. Paced o fisgedi
17. Llefrith UHT
18. Jar o Goffi
19. Tiwb o Bast Dannedd
20. Potel o siampw
21. Bocs o ddewis felysion
22. Paced o reis
23. Tun o Ffa pob
24. Cacennau neu bwdin Nadolig (di-alcohol)

Anrwyf feredur,  
 Diolch yn fawr iawn am eich siac hael iawn  
 am y Gwaith yng Nghanolfan y Drindod.  
 Rydym yn parhau â'n gwaith gyda fforduriaid  
 a cheiswyr assylm a gwerthfawrogi eich  
 cefnogaeth yn fawr ar hyn o bryd  
 Gyda golwg garedig  
 -Heather (treasure)

Cofiwch, felly!

## Casglu'r Nwyddau Uchod

Dydd Mawrth, Rhagfyr 15  
 10 – 11:30  
 ym Methlehem

Rydym ni hefyd wedi derbyn y nodyn hwn i ddiolch am gyfraniad ariannol diweddaraf Bethlehem at Ganolfan y Drindod.



## Y stori tu ôl i'r seren

Dim ond rhag ofn na welsoch chi'r erthygl ar Cymru Fyw am darddiad "Dim ond Un Seren" gan Delwyn Sion. Cwestiwn cwis i chi – pwy canodd hi gyntaf? I gael yr ateb a'r hanes yn llawn, cliciwch ar:

<https://www.bbc.co.uk/55174971>



### Crostini a 2 Daeniad (*Spread!*)

Mae'n gwneud tua 40/50 : 1 Baguette fawr (wedi mynd yn hen) : Olew Olewydd  
Tafellwch y bara tua ½ centimetr o drwch efo olew y ddwy ochr  
Rhowch ar resel yn y popty (200 gradd) am 5 -10 munud, gan eu troi drosodd i frownio.  
Oerwch, ond dim am fwy na 2 awr.

#### Taeniad 1. Caws a Marscapone

120 g Gorgonzola / Stilton? 2 Lwy fwrdd Gwin Marsala  
40g Marscapone Nytmeg ffres : Persli mân  
Masho popeth, gan ychwanegu'r persli ar nytmeg ar y top

#### Taeniad 2 Puree Pys a Garleg

1 Pen cyfan o arlleg : 1 llwy de o olew : 200g pys : 1 llwy fwrdd menynd : 2 llwy fwrdd

Parmesan. :Mint wedi ei falu

Popty 200 gradd. Torrwch y garleg yn ei hanner, ar ei draws. Sgwâr o ffoil, i wneud parsel, gan ychwanegu'r olew.  
Rhostiwch am tua 50 munud. Coginiwch y pys. Gwasgwch y garleg at y pys, y menynd a'r caws, a'i roi mewn hylifwr.  
Taenwch dros y bara, gan roi mintys ar y top.

### Wraps Twrci a Brie

Cig twrci – tua 1lb : 4 wrap tua 10" 4oz Brie : saws Ceirios y Wern : Dail rocket

Toddwch y Brie rhyw fymryn, Taenwch ar y wraps, yna'r twrci, yna'r ceirios a'r rocket.

Rhowliwch nhw'n dynn, eu sleisio ar oledd ("acha slant" i'r Hwntws!) sgiwer fach bren drwyddynt.

### Pwdin Bara Menynd Pannettone, gyda Marsala

400g Pannettone, wedi ei dafellu tua 1.5 cm o drwch : 50g raisins ;150ml Marsala : 50g menynd : 50g Candied Peel,  
wedi'i falu'n fân : 175ml Llefrith : 175ml Hufen dwbl

60g caster aur : croen lemwn : 4 wy wedi eu curo : nytmeg ffres

Mud-ferwch y raisins mewn 50 ml Marsala am tua 40 munud, a'u hoeri.

Popty 180. Taenwch y menynd dros y bara,

Irwch ddysgl, tua 1.5 litr. Taenwch yr haen gyntaf o panettone, gan ychwanegu'r "peel" a hanner y raisins (gan gadw'r hylif) Rhowch haen arall o fara menynd a gweddill y raisins.

Mewn jwg mawr, tywalltwch y llefrith, hufen, gweddill y Marsala, y gwin sydd wedi mwydo'r raisins. Gan ddefnyddio  
chwisg, curwch y siwgr caster, y croen lemwn a'r wyau sydd wedi eu curo – i'r jwg. Tywalltwch dros y bara ,gan  
wasgu i lawr er mwyn i'r hylif fynd i mewn i'r bara.

Pobwch am 50 munud, hyd nes bod y top yn frown a'r pwdin wedi ceulo.

Gweinwch gyda hufen neu Syllabub Marsala.

### Pwdin Brenhinol Ceirios y Wern

800ml o lefrith :20g o fenyn :175g o friwsion bara ffres;75g siwgr caster aur : Croen lemwn wedi ei gratio; 3 wy  
Compote ceirios y Wern

200g ceirios :40g siwgr caster : sudd a chroen oren:1/4 llwy de sinsir sych :1/2 llwy de powdwr claf :1/4 llwy de  
sinamon : Dysgl 1.2 litr, wedi ei hiro'n drwyadl.

Dewch a'r llefrith i ferw, a'i dynnu oddi ar y gwres. Ychwanegwch y menynd, briwsion bara, 40g o'r siwgr a'r lemwn i'r  
llefrith a'i adael i fwydo am tua 20 munud. Gadewch iddo oeri ychydig.

Curwch ychydig ar y melynwy, a'i ychwanegu at y briwsion bara.

Tywalltwch i'r ddysgl, a'i bobi ar wres 160 am tua 30-40 munud, neu nes ei fod wedi ceulo yn y canol.

Rhowch gynnwys y compote mewn sosban a'i fud-ferwi am tua 25 munud.

Wedi i'r pwdin ddod allan o'r popty ,taenwch y compote yn ofalus dros y bara etc.

Chwisgiwch y 3 gwynnwy, gan ychwanegu'r siwgr.

Taenwch y meringue dros ben y compote – gan ychwanegu llond llwy de o siwgr ar ei ben.

Pobwch am tua 20 munud

### Syllabub Marsala

75ml Gwin Marsala :1 llwy bwdin siwgr muscovado tywyll :150 ml Hufen dwbl : nytmeg ffres

Rhowch y Marsala mewn bowlen, ychwanegwch y siwgr ,a'i adael i doddi am rhyw 10 munud.

Ychwanegwch yr hufen a'i chwsgio hyd nes ei fod yn tewhau. Ysgeintiwch nytmeg ffres dros y top.

# FFYJ



“Barod at y Dolig”? Yr ateb yw “Ydw a Nadw” !

Wel, am ffyj o ateb. Ateb eistedd ar y wal. Gwrthod wynebu sefyllfa anodd. “Rhoswch funud ...” Beth am emyn Edward Jones, Maes-y-plwm ‘Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw, ni syfl o’i le, nid ie a nage yw.’

Does ryfedd fod O. M. Edwards wedi dweud mai yr emyn hwn yw’r mwyaf mawreddog yn y Gymraeg.

“Cytuno, ond ...” Ond dim byd. Dyn a gafodd ddigon o addysg i godi syched arno am ragor ...

“A thad i ddau ar bymtheg o blant.” Paid a bychanu ei gyfraniad.

“Bobol bach, nid dyna ...;” Paid â thorri ar ‘y nhraws i o hyd.

Sgwrs mewn peryg’ o gyrraedd unman yw sgwrs o’r fath. Gofyn wnaethoch chi oeddwn i’n barod am y Dolig. Ond cyn colli golwg ar yr hen Faes-y-plwm, adlais yw’r emyn o Eseia 54:10 ‘*Canys y mynyddoedd a giliant, a’r bryniau a symudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl medd yr Arglwydd.*’

Os yde chi’n wylwyr cyson o’r rhaglen ‘Pointless’ ar BBC1 fe glywsoch Alexander Armstrong yn gofyn bron yn ddyddiol i’r pâr sy’n cyrraedd y rownd derfynol ‘*Are you ready?*’ A chael yr ateb “*As ready as we’ll ever be.*”

Hwyrach mai dyna’r ateb i’r cwestiwn ddaru chi ofyn ar y dechrau – mor barod ag y bydda i byth!

Er mod i’n gyfarwydd â’r defnydd o’r gair ‘*fudge*’ yn Saesneg yn yr ystyr o ‘osgoi ateb’ nid dyna oedd gen i mewn golwg. ‘Ydw, rwy’n barod at y Dolig OND nadw oherwydd dwi ddim wedi gwneud y ffyj. Y peth melys hwnnw sy’n llawn siwgr ac, er yn flasus, nad yw’n gwneud dim lles i’ch dannedd chi.

Nawr te; doeddech chi ddim yn gwybod am fy noniau fel cogydd nag oeddech chi ! A’i gadael hi tan y munud ola sydd raid. Dyna pam mae hi

mor anodd dweud ydw i’n barod neu beidio. Mae’n dyddio n’ôl i ddyddiau Llandysul i mi; cyn hynny i Rhiannon. ‘Rhiannon Morris, Abbey House, Dinbych’ sydd ar glawr y llyfr rysetiau. Rhiannon yn cofnodi rysetiau gan hwn a’r llall, a’i llygad at y dyfodol.

Priodi yn 1961 a’r Nadolig cyntaf i ni ein dau oedd yn Llandysul. Minnau, o weld ei phrysurdeb yn y gegin, yn gofyn i Rhiannon ‘Oes rhywbeth y galla’ i wneud.’ ‘Oes!’ oedd yr ateb, gan estyn y llyfr rysetiau ‘Cer i ‘neud ffyj’.

‘Rysait Beryl’ sydd yn y llyfr bach. Beryl, athrawes Gwyddor Tŷ, oedd gwraig ei Phrifathro yn Uned Gymraeg Ysgol y Rhuallt. Dyma’r rysait:

**4 owns o farjarîn;**

**2 lwy fwrdd o laeth/llefrith;**

**tun bach o laeth/llefrith cyddwysedig [condensed milk];**

**pwys o siwgr brown meddal**

Eu cynhesu tros wres isel am 20 munud. Yna’i guro efo llwy bren am bum munud a’i dywallt i ddysgl oer. Mae’n edrych mor syml. Ond ... wel, gofynnwch i Jâms ac Anna, i Manon a Madog sut gwc yw Taid.

**R Alun**



## Plygeiniau Llandudoch

Atgofion Joy Glyn

Sgidie cerdded am fy nhraed, botel ddŵr mewn un llaw, torts yn y llall a mas â fi o'r tŷ fydden i'n aros ynddo. Roedd yn rhaid dechre cerdded cyn iddi wawrio er mwyn i'r daith ddyddiol ddod i ben cyn i'r houl ein crasu. Clywed sŵn dryse'n agor a chau, gole gwan yn ymddangos a phobol o bob oed a chefnidir yn barod i roi un troed o flaen y llall am ddiwrnod arall. Pob un â'i stori.

Ar bererindod i Santiago de Compostela oeddwn i. Ond roedd yr awyrgylch hwnnw yng nghanol haf yn f'atgoffa o ddiwrnod arbennig ymhob gaea'. Cerdded trw'r pentre a dim ond gole torts i ddangos y ffordd i ni a hynny tua chwarter i chwech yn y bore. Doedd gole'r stryd ddim wedi cynnau ond wrth fynd lawr y rhiw, gweld tortys pobol eraill fel *glow worms* yn y duwch. Cyfarch ein gilydd a ni'r plant yn hapus wrth adrodd beth fydde'r hen Santa wedi ei adel. Wedd, we yna awyrgylch arbennig ar fore Nadolig.

Dyna sut fydde'r wŷl yn dechre i ni. Cerdded i'r Plygain. Rhedeg ambell i waith os fydden ni'n hwyr yn dod o'r tŷ a chloch yr eglwys yn canu. Bydde rhaid cyrredd ychydig cyn i gnul y gloch stopio achos fe fydde angen gwisgo ein dillad côr a bod yn barod i orymdeithio i lawr y gangell ar ddechre'r gwasanaeth. Yn ein harwain fydde ein ficer, yr annwyl Mr W G Jones, oedd yno trwy fy holl blentyndod ac oedd yn gymaint o ddylanwad arnaf.

Yn y blynydde dwetha mae sir Drefaldwyn fel tae nhw wedi monopoleiddio'r Plygain! Ond i fi, sy' wedi cael ei magu yng nghysgod abaty, rwy'n meddwl amdano fel traddodiad eglwysig ac yn dychmygu'r mynachod ganrifoedd ynghynt yn llafar-ganu'r newyddion da ar ganiad y ceiliog.

Wrth gerdded adre ar ddiwedd y gwasaneth bydde'r byd yn edrych yn wahanol. Roedd hi wedi gwawrio. Ymlwybro lan y rhiw, wedi blino cyn dachre. Agor y Selection Box. Stwffio ein hunain gyda siocled a hynny cyn brecwast. Dyna ddachre da i'r Wŷl.



## Dau Dymor



*Diolch i un o'n ffotograffwyr craff am gofnodi'r newid tymhorol hwn ar bolyn ffens yng nghysgod Mynydd y Garth.*

**BETH WELWS YR ASYN.**

Hannah Roberts

Nawr, clywch 'ma, w i 'di gweld sêr o'r bla'n, a dicon ohony' nhw, ond o'dd y seren 'ma m'wn ca' arall, w i'n gweud y gwir 'tho chi.

Paratoi i fynd i gysgu o'n i yn y gwellt, pan glywes i sŵn, ac o foelyd y nghluste, (a ma dicon o'r rheiny 'da fi i foelyd allai weud 'tho chi!) ei sŵn E, perchennog y gwesty o'n i'n glywed,

"Ma ni", medde fe, fyddwch chi'n gynnes fan hyn yn y stapal 'da'r asyn a'r fuwch. "Hold on!" feddyles i, "Sdim lot o le fan hyn ishws, pwys s'da fe nawr 'to. A miwn dda'th pâr, hi'n ifanc, a fe 'bach yn fwy o fintej. Mair o'dd ei henw hi o'n i'n clasgu, a Jo o'dd e. Wel nawr, 'w i 'di cysgu m'wn staple ar hyd y mywyd, ond o'n i'n becco am y fenyw 'ma, achos o'dd hi'n itrech yn "refeind", sbosib bod hi'n mynd i gysgu yn y gwellt.

Ond 'na beth ddigwyddws ta beth. O'dd dim lle yn y llety, chi'n deall, o'dd hwnnw'n "choc a bloc" achos bod y byd a'i wraig wedi dishgyn ar Bethle'm. O'dd E, Awgwstws Cesar, -y gaffer ar y pryd, ishe cownto pob copa walltog yn ei deyrnas, i neud yn siŵr bo' neb yn jibo talu arian iddo fe.

Wel, cyn bo' hir, setlo nhw lawr, a finne 'fyd. O'n i siŵr o fod 'di dechre slwmbro, achos y peth nesa glywes i o'dd lleishe dynon, -cricyn o fugeilied yn egseiteid bost, wedi ca'l neces 'da angel i ddilyn y seren o'n i'n wilia amdani ar y dechre'. (O'dd hi'n dechre' mynd yn choc a bloc fan hyn nawr!) A fanna, yn y gwellt, o'dd Mair, (o'n ni ar derme enwe erbyn hyn chi'n deall, ac Abel o'n i iddy' nhw) a o'dd babi yn ei briche – 'na dreni i fi gwmpo i gysgu, golles i'r cwawl.

Mor bell a allen i witho mas, o'dd angel wedi gweud wrth y criw 'ma bod y babi speshal ma, o'dd yn siaro stapal 'da fi a'r fuwch, yn mynd i newid y byd. 'Chytyg wedi hyn, 'odd hi off 'na 'to. Tri arall yn cyrra'dd, ond nace dyn'on a'u tra'd yn tir o'dd rhain! Brenhinoedd o bant o'n nhw, yn aur a thus a myrr i gyd,. A otych, -chi'n reit, wedi dilyn y seren 'na. Wedi dod i weld "Gwardedwr" medde nhw, "Brenin" medde nhw, lot fwy pwysig na Herod!! Wel, pan glywes i 'na, o'n i'n gwpod fydde trwpwl, a o'n i'n reit ed.

Erbyn y bore, o'dd y tri wedi rhoi tra'd iddi, a gas Jo wetyn freuddwyd, angel arall 'to! O'dd rheiny'n popo lan ym mhobman, synnen i ddim na 'se un yn lando ar y nghefen i, na ffact i chi. Wetws yr angel wrtho fe i fynd a'r babi speshal 'ma, a mam y babi speshal, a fi 'nawr, asyn y babi speshal, lawr i'r Aifft, achos bod e' Herod, brenin Jiwdea, yn ynfyd, babi wedi'i eni ar ei batsh E!! a'i alw'n FRENIN!!!

O'dd rhaid rhoi stop ar y nonsens 'ma NAWR! Hen un od o'dd Herod ar y gore', o'dd cnoc arno fe medde rhai, a o'dd e ddim hanner iach, ond nawr ac yn y man o'dd 'n ca'l pwl o golled, a phan glyw-ws am y babi 'ma, gas e bwl o golled BIG TEIM!! Penderfynu lladd bob plentyn dan ddwy flwydd o'd, 'na pham baglon ni 'ddi, gatel y stapal, a chilo i'r Aifft. O'n i mor falch bo fi 'di aros 'da nhw, i gatw'r babi speshal 'ma'n saff. Fues i'n asyn bach lwcus, er y dilorni sy' arno' ni asynod, fe geso i fy awr.

A grindwch, w i 'di clywed yn rhwle, fod 'na wlad ymhell o fan hyn, a'i henw Cymru, ond mor bell a alla i weld, ma nhw 'bach yn od 'na 'fyd, gwishgo cynfase gwyn, a galw 'u hunen yn FEIRDD. Wel, 's dim ots, achos sgrifennws un o nhw gerdd yn y nghanmol i am aros 'da'r teulu bach pan o'dd pawb arall 'di gweud "Gwbei". W i'n deall taw Prifardd o'n nhw'n ei alw fe (ta beth yw hwnnw) a bod e wedi'i gwni ar ffarm mae'n depyg, (falle o nhw'n catw asynnod 'fyd)

Wel, licech chi glywed ei gerdd e? Reit te, bant a'r cart.

**DRANNOETH YR WYL— Y Parchedig John Gwilym Jones.**

O gilio'r hen fugeiliaid  
At yr ŵyn eto o raid,  
A chamre'r nifer nefol  
Tua'r nef wedi troi 'nol,  
A'r Doeth doeth ar gyngor da  
Yn dianc o Jiwdea,

Yn y gwellt yr unig un  
Arhosodd oedd yr asyn.  
Ond â herwyr du Herod  
Yn eu dur at Iesu'n dod,  
Hwn o'i stâl ar droed ddi-stŵr  
Waredodd y Gwardedwr.

**Nadolig Llawen!**



# GWEDDI NADOLIG

gan Y Diweddar Barchedig Ddr T. J. Davies

(Allan o'r gyfrol "Cip" – Gwasg Christopher Davies)

Ma' hi'n Nadolig unwaith eto,  
Y coed yn goleuo;  
Y cyhoedd yn gwario;  
Yn archfarchnadoedd yn torheulo;  
Siôn Corn yn trampio;  
Y teledu yn perfformio;  
Yr adar wedi eu stwffio;  
Y cracys yn tanio;  
Yr eisin yn sgleinio;  
Y gwinoedd yn wincio;  
Y cwrw yn llifo;  
Y cyrcs yn popio;  
Y tiliau yn ticio;  
*Ond?... Ond?...*  
Pa le mae yr hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?  
Fe'i gwelais,  
Os ei weld, hefyd,  
Mewn preseb sidêt.  
Angylion plastig yn syllu arno,  
Eu hadenydd yn rhy llonydd i ysgwyd y dwst.  
Gwartheg, geifr ac asynnod  
Na fedrant genhedlu, o'i gwmpas.  
A bugeiliaid na fuont erioed yn byseddu  
Oen bach newydd ei eni  
Yn gadwyn ddiymadferth yn ei wyllo.  
Gwair a gwellt heb nabod tail  
Yn haenau drosto.  
(Nid oes alw am garthu beudy gwartheg plastig!)  
Ai peth fel hyn yw'r 'Dolig, Arglwydd?  
Ai peth fel hyn yw'r geni ym Methlem?  
Ai i weld hyn y teithiodd y doethion?  
Ai dyma'r rhyfeddod gyffrôdd yr angylion  
I ganu uwch meysydd Bethlem?

Cofiwn i'r tri gŵr doeth  
Holi'n y plas.  
Cynddeiriogwyd Herod a lladdodd y plant.  
Deil Herod i gyflawni ei anfadwaith o hyd.  
Ac nid yw'n brin o help.

Y plant yn gelain o gwmpas.  
Onid ydym yn eu lladd â gormod?  
Onid ydym wedi eu bodd mewn siocled?  
Onid ydym wedi lladd y Mab bach er mwyn yr arian  
mawr?  
Ers pa bryd mae'r Mab bach mewn hosan 'Dolig?

Gofyn ydym ni, Arglwydd,  
Dwêd, ble mae cael hyd i'r Mab bychan?  
Euthum i'r festri nos y goeden Nadolig.  
Euthum i'r gwesty nos y gwledda.  
Euthum i'r cartre nos cyn 'Dolig.  
Lle ma' fe? Lle ma' fe?  
'Rwy'n chwilio am sens ynghanol y nonsens;  
'Rwy'n chwilio am bwyll ynghanol y gorffwylledd;  
'Rwy'n chwilio am oleuni ynghanol y tywyllwch;  
'Rwy'n chwilio am ddysgawdwr ynghanol y disgos;

'Rwy'n chwilio am safon ynghanol y sêls;  
'Rwy'n chwilio am gydwybod ynghanol y goleuadau;  
'Rwy'n chwilio am dangnef ynghanol y dadwrdd;  
'Rwy'n chwilio am heddwch ynghanol yr helynt;  
'Rwy'n chwilio am y Crist ynghanol y cawdel;  
'Rwy'n chwilio am y Baban ynghanol y Babel;  
'Rwy'n chwilio am nefoedd ynghanol uffern;  
'Rwy'n chwilio am gwmni i rannu cred;  
'Rwy'n chwilio am gred i'w rhannu.  
'Rwy'n chwilio .... 'Rwy'n chwilio .... 'Rwy'n chwilio,  
Arglwydd.  
Pa le mae yr hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?  
Cystal cydnabod,  
'Ry'm ni gyd ar goll,  
Fel gwlad,  
Fel gwreiddiad,  
Fel gwladwriaeth,  
Fel Gorllewin,  
Fel cenhedlaeth,  
Fel capeli,  
Fel personau,  
Fel personiaid,  
Y cwbl lot ohonom.  
Ac mae'r anialwch uffernol o'n cwmpas  
Yn ategu hynny.  
*Ond?... Ond?...*  
Pa le mae yr hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?

Arna' i mae'r bai, Arglwydd.  
Ond 'na fe', 'dydw i, mwy nag eraill,  
Ddim wedi edrych lan ers blynydde.  
A phan ddyrchefais fy llygaidd,  
Yno, 'roedd y Seren yn llewyrchu  
Uwchben y Gair.  
A'm gwahodd i fynd i mewn,  
Fel y bugeiliaid a'r doethion gynt  
At y crud.  
Yno, roedd y Mab bach yn ei ddiniweidrwydd diymadferth  
Yn cogian siarad  
Ei neges a'i naws,  
Wrth y rhai oedd yn ddigon agos ato i'w glywed.

Pam 'r'yn ni, Arglwydd, yn dianc oddi wrth hwn?  
Pam 'r'yn ni, Arglwydd, wedi codi marchnad swniog i foddi  
hwn?  
Pam 'r'yn ni wedi troi tŷ gweddi yn ogof lladron?

Pa le mae yr hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?  
Holais a chwiliais lawer lle.  
Fe'i cefais  
'yn y dwys ddistawrwydd'.  
Fe'i cefais  
Yn ei Air.  
A dychwelais innau, fel y doethion gynt,  
Ar hyd ffordd arall.  
Y 'ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist  
I basio heibio i uffern drist'.

## Meddyliau Dafi Rhys

Un flwydd a thipyn bach o oed



Dwn i ddim a ydi hi rhy gynnar i ddimuno Nadolig Llawen i chi eto, ond mi wnaf, jest rhag ofn na welai chi rhwng rwan a hynny, yn enwedig o gofio bod oedfa bora Nadolig yn y capal, fel dwi'n dallt petha, wedi ei chanslo.

Ond tydi pob dim dan haul yn cael ei ganslo'r dyddia yma yntydnt?

Ac o be wela i ma' pawb wedi mopio hefo g'neud pob dim yn rhithiol – mae 'na gorau yn canu'n rhithiol, mae 'na gwisys yn cael eu trefnu'n rhithiol, ma 'na giniawa yn cael eu bwyta'n rhithiol ac yn y blaen ac yn y blaen.

Dim ond un Dolig dwi 'di gael hyd yma, a dwi'n cofio fawr ddim am hwnnw.

Mae'n siŵr fy mod wedi cael presanta, ond cael be o'dd pobol eraill yn feddwl fy mod i ishio oedd hynny yn lle mod i yn dewis a dethol petha i mi fy hun.

A ches i fawr o ben-blwydd chwaith erbyn meddwl – mi fuasach yn meddwl y byddai penblwydd cynta rhywun yn amgylchiad i'w gofio – ond fe basiodd yn tŷ ni heb ryw lawar o ffys.

Mae'n siŵr mai fel yna mae Eirlys TJ yn teimlo wrth orfod disgwyl dathlu bob pedair blynedd – mae mor annheg ar rai yn tydi.

Ond yn ôl at y Dolig. 'Da chi o ddifrif wedi meddwl sut y bydd twrci rhithiol yn blasu, a sbrowts a thatws rhost sa hi'n mynd i hynny?

A phwddin Dolig – sut a lle ma rhywun i fod i dywallt y saws gwyn ar ben un rhithiol deudwch i mi?

Ond nid byta a chael presanta ydi Dolig go iawn medda Delwyn Sion - ia, y boi 'na sy'n canu "Un Seren" 'radag yma o'r flwyddyn ers degawda – ond dathlu dyfodiad baban arbennig iawn i'r byd ddwy fil a mwy o flynyddoedd yn ol.

Ac er y bydd y Dolig 'leni yn teimlo'n dra gwahanol i Nadoligau'r gorffennol i lawer ohonoch, dwi'n rhyw ddechrau meddwl na fydd y Nadolig go iawn yn cael ei ganslo wedi'r cyfan.

Bydd y capal yn sicr heb gynulleidfa ar fore'r Nadolig, ond bydd cri'r baban am heddwch a chyfiawnder i'n byd yr un mor daer eleni fel ag o'r blaen.

Anghofiwch Adrian Mole eto!

## .... a meddyliau Hen Olygydd

Pedwar ugain namyn dwyflwydd

Bobol bach! Ai am y Nadolig hwn byddwn ni'n cofio, deudwch – a hynny am bob math o resymau? I mi, mae'n syndod fel mae Nadoligau plentyndod wedi ymdoddi i'w gilydd. Dichon nad oedd disgwyl fawr o ddim syfrdanol tua Llanddona, ym mhedwar degau'r ganrif aeth heibio. Erbyn hyn, alla i ddim cofio yr un ddrama Nadolig yn y capel nac yn yr ysgol – ond mi wn mai uchafbwynt y tymor i blant y pentre oedd y "Christmas Tree". Na! Nid y goeden ei hun, er bod un enfawr wedi ei llusgo o rywle i lofft capel Peniel a'i haddurno â phapur crêp o siop Wiliams y Post. Ac er ein bod mewn pentref ymron uniaith Gymraeg, yr enw ar noson dyfodiad Sion Corn y Methodistiaid Calфинаidd oedd y "Christmas Tree". Dyna'r cyfnod a'r drefn ar y pryd.

Roedd yna batrwm i'r achlysur. I ddechrau, roedd y gwrthgilwyr yn dechrau ail fynychu'r Ysgol Sul tua diwedd Tachwedd, er mwyn sicrhau eu bod ar restr Sion Corn (naci'n wir – ar restr Ffaddyr Crysmas) yn y parti jeli a blymonj. Gwaeth fyth, i mi, roedd gwybod byddai fy mam yn ymddangos fel rhyw gymeriad o'r enw "Meri Crysmas", sef deheu law Sion Corn, i ddarllen y labeli ar yr anrhegion ger y goeden. Heb ei sbecs, 'doedd Sion Corn ddim yn cofio pwy oedd pwy o blith y plant! Yno, i'w helpu, roedd fy mam, wedi ei gwisgo mewn gwisg Gymreig – het bot llaeth, a siôl ac ati. I blant direidus, bu sawl ymgais ofer i chwilota tu cefn y goeden a dyfalu beth oedd yn y sachau.

Yn ddi-ffael, i hogiau o oedran arbennig, roedd yna lyfr pêl-droed, y "Charles Buchan Football Annual". Ynddo, un flwyddyn, y llun sydd wedi ei serio ar fy nghof (a'r atgof am y tro cyntaf i mi weld cwpan yr FA ar signal llawn eira teledu cydweithiwr i fy nhad ym Miwmaris). Hwn oedd y llun 'eiconig' o Ronnie Allen, West Brom, yn sgorio penalti yn erbyn Preston North End ym 1954 – ond llun wedi ei dynnu o ben arall y cae, fel bod modd gweld, Sanders, gôl-geidwad WBA, yn cofleidio'r postyn, ac yn methu ag edrych ar y gic o'r smotyn! Rhag i mi achosi helynt, wna i ddim ei gynnwys fel llun – ond mae o i'w gael ar: <https://www.gettyimages.co.uk/detail/news-photo/ronnie-allen-of-west-bromwich-albion-scores-a-penalty-news-photo/53457139>. Mae o'n glasur – wir rwan! O blith y presantau Nadolig mewn cyfnod digon llwm, allai Sion Corn ddim fod wedi dewis gwell i un o ddilynwyr y "Baggies"!

Os ydyn ni'n cael ein cyfyngu ychydig yn 2020 – cysurwch! Fe fu yna ddyddiau digon moel ymhell cyn hyn. Doedden ni ddim callach bod dyddiau brasach na rhai gwahanol i ddod!

Fe ddaw yna syrpreis o'r sach eto eleni, 'dwi'n siŵr! Mwynhewch bob munud a daliwch ati!

Ifan Roberts

## Mesurwch eich Adenydd!

"A rydach chi wedi cyfarfod Nelson Mandela? Beth, y Nelson Mandela go iawn felly?"

Dyna, fel arfer yr ymateb dwi'n gael wrth sôn am fy mhrofiad o gyfarfod Arlywydd du cynta gweriniaeth De Affrica. Roeddwn i wedi bod yn gweithio yn SABC, sef darlledwr cenedlaethol 'gwlad yr Enfys' unwaith yr oedd Apartheid wedi peidio.

Yr ymweliad cynta oedd i'w cynorthwyo i ddrafftio egwyddorion golygyddol newydd. Treuliais fis a mwy yn cydweithio gyda Phennaeth Newyddion SABC. Sylweddolais yn fuan iawn bod na ymyrraeth

wleidyddol uniongyrchol yn agenda newyddion y sianel. Bob pawns byddai'r tîm cynhyrchu yn cytuno ar drefn y prif raglen newyddion, dim ond i Cristos y pennaeth ddiflannu am awr neu fwy a dod nôl gyda threfn o eitemau oedd yn wahanol iawn i'r un gytunwyd yn gynharach. Dyna ofyn iddo pam y newid gan bod nifer o storïau yn diflannu yn gyfangwbl o "running order" y rhaglen?

"Dwi wedi ail feddwl trefn y rhaglen" oedd yr ymateb cyntaf. Y diwrnod wedyn dyma ddigwydd gyrru i weld lle oedd yr Arlywydd yn byw. Pwy ddaeth allan o'r tŷ ond Cristos. Pan ddaeth y golygydd allan o dy de Klerk, dyna adael iddo wybod fy mod wedi "dallt y dalltins" a bod rhaid i'r cyfarfodydd cudd 'ma beidio o'r pawns hwnnw.

Mae'n syndod felly fy mod wedi cael fy ngwahodd yn ôl i gynorthwyo'r sianel yn yr etholiad cynta' ers i Mandela gael ei ryddhau wedi 27 mlynedd o garchar. Wedi hynny bum yn eu helpu i lansio rhaglenni brechwast i'r brodorion ac yna nifer o gyrsiau newyddiadurool i'r darlledwyr ifanc oedd yn cael eu cyflogi i'r SABC aml-ethnig newydd.

Wedyn daeth yr her i'w cynorthwyo i lansio'r sianel o'r newydd. Ail frandio. Penaethiaid newydd. Rhaglenni yn saith iaith swyddogol y De Affrica newydd. Rhaid oedd cael Mandela i lansio'r holl fenter. A hynny yn fyw un noson o haf. Roedd y rhan fwyaf o gwmnïau a chyrrff cyhoeddus yn ail gyflwyno eu hunain i'r byd mawr y tu allan i Affrica ac yn or-awyddus i fod yn rhan o'r dathliadau yn SABC. Un o'r rhai mwyaf dylanwadol oedd South Africa Airways, oedd yn gweld cyfleoedd masnachol proffidiol o gael teithwyr i ymweld â Cape Town, Johannesburg, a Durban. Roedden nhw eisoes wedi archebu awyrennau newydd i gyd-fynd a'r cynnydd disgwylidig, nawr bod Apartheid ar ben.

Dwi ddim yn cofio pwy ddaeth a'r syniad o gael Mandela yn cyrraedd mewn awyren SAA newydd sbon, dringo lawr grisiau'r awyren ac yna lansio'r SABC newydd. Ond felly roedd hi i fod, er i mi eu rhybuddio bod pob lansiad sianel yr oeddwn ni



wedi ei wyllo wedi bod yn siop siafins. Pwy sydd yn cofio bwletin newyddion cynta S4C neu lansiad HTV? Ta waeth. Pawns y lansiad dyna gynnal y rihyrsal. Awyren SAA yn cael ei thynnu i fewn i'r hanger. Stopio wrth risiau a meicroffon ac aelod o'r tîm cynhyrchu yn agor drws yr awyren ac yn camu allan ac i lawr y grisiau a siarad i'r meicroffon, fel y byddai Mandela ei hun yn ei wneud mewn ychydig oriau. Beth allai fynd o'i le? Wel! Pan gyrhaeddodd amser y lansiad byw dyma gadarnhad bod yr Arlywydd yn yr awyren. Grêt! Pob peth yn mynd fel watsh. Dyma drwyn yr awyren yn ymddangos wrth fynedfa'r hanger. Yn sydyn, dyna'r holl adeilad yn ysgwyd a sŵn damwain fawr. Roedd adenydd yr awyren wedi mynd yn styc yn nrysau'r hanger. Rhaid oedd torri nôl i bencadlys y sianel a gohirio'r lansiad, tra roedden ni yn gweddïo na fyddai drws yr awyren yn agor a Mandela'n syrthio allan o'r awyren. Drannoeth y syrucas, dyna leoli'r lansiad mewn stiwdio, wedi i ni ddeall bod SAA wedi newid yr awyren rhwng y rihyrsal a'r darllediad byw, a bod yr awyren newydd yn dipyn mwy o faint na'r llall ac mai dyna sut achoswyd y ddamwain. Wedi i'r Arlywydd gyhoeddi y lansiad, dyna sefyll mewn rhes i'w gyfarch wrth iddo adael.

"Mr President, this is Arwel who was in charge of last night's aborted launch," meddai Cyfarwyddwr Cyffredinol SABC.

Dyna sut y daeth y cyfle i mi gyfarfod Nelson Mandela. Hwyrach fy mod wedi dychmygu, ond mi allai dyngu bod 'na awgrym o wên gynnes ar wefusau'r Arlywydd, wrth i ni ysgwyd llaw.

**Arwel Ellis Owen**

Daeth gwybodaeth yn ddiweddar oddi wrth Undeb yr Annibynwyr yn ein hysbysu fel eglwys am gynllun "Arloesi a Buddsoddi". Yn ol y daflen a gyhoeddwyd, mae'n gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan yr Undeb "i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd. Cynigir symiau sylweddol iawn - hyd at £50 000 [£10 000 y flwyddyn] dros gyfnod o 5 mlynedd."

Mae'r Undeb yn nodi'r dymuniad "i'r rhaglen fod yn fwy na chronfa nawdd ariannol", ac felly am "sichrau bod y nawdd yn seiliedig ar weithgaredd partneriaeth fywiol rhwng yr eglwysi a'r Undeb".

Bydd unrhyw gynllun yn gorfod bod yn gydnaws a dyheadau'r Undeb, yn hysbys i'r cyfundeb, ac os yw'n ymwneud a hyfforddi, i Goleg yr Annibynwyr Cymraeg. Bydd y Rhaglen yn cael ei chydlynu gan Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Undeb, a bydd unrhyw gais yn cael ei ystyried gan Banel Dyfarnu.

Cyflwynir enghreifftiau posibl o gynlluniau a allai gydymffurfio a phrif amcan y rhaglen fel a ganlyn:-

- Hybu cylch o eglwysi (enwadol / trawsenwadol) i ffurfio'n ofalaeth newydd a fyddai'n abl i alw a chynnal gweinidog
- Hybu eglwysi i godi ac hyfforddi arweinyddion
- Sichrau a hybu gweinidogaeth mewn ardaloedd lle mae gweinidogion yn brin
- Sefydlu gweinidogaethau tîm
- Galluogi gweinidog i gyflawni gweinidogaeth amgen dros hanner yr wythnos waith, e.e. caplan ysgol, ysgogydd cenhadol, hyfforddwyr diwinyddol / Beiblaidd, gweithiwr cymunedol
- Sichrau gwasanaeth gofalydd / nyrs arbenigol i'r Bore Coffi Dementia
- Sichrau gwasanaeth i grwpiau arbennig e.e. ieuencid, Henoed.
- Sefydlu cynllun sy'n cyfarfod ag angen neu ddiffyg arbennig o fewn i gymuned
- Hybu astudiaeth dichonoldeb all hebrwng eglwysi i sefydlu patrwm o fyw a gweithio fydd yn cyfarfod ag anghenion y dydd
- Sichrau hyfforddiant yn y cyfryngau cyfoes all hebrwng eglwysi at weithgaredd ddigidol / rhithiol.

**Ni all eglwysi neu ofalaeth ymgeisio am nawdd i fwy nag un prosiect ar y tro.**

**Disgwylir adroddiad ysgrifenedig llawn ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cyfnod nawdd.**

**Ni fwriedir i'r rhaglen gwrdd a diffygion ariannol unrhyw weithgaredd cyfredol, ac nid yw'n ffynhonnell nawdd ar gyfer cynnal a chadw adeiladau, (er y gellir defnyddio rhan o'r nawdd i addasu adeilad ar yr amod bod hynny'n rhan o gynllun mwy).**

\* \* \*

Dyna rannu'r neges felly - ond beth mwy y dymunwch i ni ei wneud ar eich rhan tybed?  
Byddai'n dda derbyn eich sylwadau, syniadau a'ch awgrymiadau – beth amdani?  
Mae hwn yn gyfle rhy dda i ni ei golli, tydi **peidio** ymateb ddim yn opsiwn!

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifynnau o  
Gair bach Bethlehem  
dros y misoedd.

**A diolch i chi am ei ddarllen!**

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Ionawr 13 2021: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)



# 10 MLYNEDD YN ÔL

Dyma fel roedd pethau yn nrama'r Nadolig 2010 gyda'r thema 'Campau'r Nadolig'



John;



Sara, Mali ac Aine;



Huw



Gruffydd a Lara;



Heulwen(yr awdur);



Meilir a Gruffydd;



Alys, Elinor a Carys



Dylan a Bethan;



Alwyn, Gruffydd, Peredur, Cerith, Arwel, Gwenllian a Delyth



Dim sôn am gadw 2 fetr oddi wrth eich cyd-aelodau yr adeg honno!  
Trowch i waelod y dudalen nesaf am lun gwell o'r Angylion (Marged, Manon, Ffion, Morfudd, Beca, Megan a Mari)  
a'r Bugeiliaid (Aled, Ifan a Morgan) a Llew y gwas.

## Nadolig 2020

Y 'dolg sy'n dawelach - heb wleddoedd  
Na bloeddio'r gyfeddach,  
Ond clywir 'leni'n gliriach  
Sŵn stwyrion y baban bach.

*Rhys Powys*

*A dyma 3 chyfraniad gan  
Martin Huws y tro hwn*

## Nadolig 2018

*Stori yn y South Wales Evening Post am ddiswyddo Sion  
Corn mewn siop fawr yn Abertawe*

Does neb yn derbyn doli  
a'r plant trist sydd yn delwi.  
Does dim ond potel yn ei sach.  
Mae'r dyn bach wedi meddwi.

*MH*

## Nadolig 2019

Ar ei hyd y stryd yn strach: yr hwpo,  
yr heip oll yn afiach.  
Seithug ein hawch am sothach,  
ein rhodd ni yw'r Babi Bach.

*MH*

## Nadolig 2020

Fe yswn ni am archeb  
ar frig y don, prysurdeb.  
Gwireddwn ein breuddwydion mân.  
Mae'r Baban yn y preseb.

*MH*



*Dyma un o olygfeydd mwy traddodiadol cyflwyniad Nadolig 2010. Ond gan mai'r thema oedd "Campau'r Nadolig" (gan Heulwen Jones) 'doedd yr holl stori ddim mor syml â hynny – ac yn sicr, fel y byddwch wedi gweld ar y dudalen flaenorol, nid aelodau cyson yr Ysgol Sul oedd y cyfan o'r cast!*

*Ond i'ch atgoffa o'r rhai nad oedd yn gwbl eglur ar y dudalen flaenorol – dyma nhw:*

**Angylion:** Marged, Manon, Ffion, Morfudd, Beca, Megan a Mari

**Bugeiliaid:** Aled, Ifan a Morgan

**Y Gwas:** Llew



Maddolig  
Llawen  
a Blyddyn  
Newydd  
Dda!

